**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1240
Ein cyf/Our ref EM/14732/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

31 Ionawr 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich e-bost dyddiedig 13 Rhagfyr ynghylch Deiseb P-06-1240 'Gwella gwasanaethau iechyd i bobl ag epilepsi sy'n byw yng Nghymru' a gyflwynwyd gan Janet Paterson. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol er mwyn gwella gwasanaethau i'r rheini ledled Cymru sydd â chyflyrau niwrolegol, gan gynnwys epilepsi.

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol yn sicrhau arweinyddiaeth genedlaethol ac yn hybu newidiadau yn eu blaen er mwyn sicrhau gwasanaethau sydd o ansawdd gwell, o werth uwch, ac sy'n fwy cyson a hygyrch i bobl sy'n cael eu heffeithio gan gyflyrau niwrolegol. Mae hyn wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd a ddaeth i'r amlwg yn sgil y pandemig COVID-19 yn ogystal. Nod y grŵp yw parhau i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â chyflyrau niwrolegol, a sicrhau bod y rheini sy'n cael eu heffeithio gan unrhyw fath o gyflwr niwrolegol yn gallu cael gafael ar lwybrau gofal o ansawdd uchel yn amserol, o ddechrau'r symptomau hyd at ddiwedd oes.

Yn ogystal, mae'r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol yn cydweithio â'r Tîm Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth ar hyn o bryd er mwyn datblygu dangosfwrdd data ar gyfer epilepsi. Bydd hyn o gymorth i gefnogi achosion busnes ar gyfer datblygu gwasanaethau a sicrhau cefnogaeth i bobl sydd ag epilepsi yn y dyfodol. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal ynghylch cynnwys epilepsi ar y dangosfwrdd cenedlaethol fel modd o fonitro gwasanaethau ac adnabod anghydraddoldebau. Mae'r grŵp yn cydnabod pwysigrwydd data o ansawdd er mwyn gwella gwasanaethau, ac yn cydnabod yr heriau sydd wedi'u hwynebu yn y maes hwn hyd yma.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein Fframwaith Clinigol Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn disgrifio sut dylid darparu gwasanaethau clinigol, er enghraifft gwasanaethau cyflyrau niwrolegol dros y ddegawd nesaf a sut gallwn gefnogi prosesau cynllunio systemau a gwella ansawdd yn well. Bydd y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn cael ei gefnogi gan ystod o ddatganiadau ansawdd sy’n amlinellu amcanion polisi lefel uchel ac sy’n disgrifio’r safonau a’r canlyniadau a ddisgwylir gan wasanaethau clinigol. Mae’r Grŵp Gweithredu ar Gyflyrau Niwrolegol yn llunio datganiad ansawdd penodol ynglŷn â chyflyrau niwrolegol ar hyn o bryd.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU yn cynllunio i gyhoeddi strategaeth trawslywodraethol ar gyflyrau niwrolegol. Rydym yn cynnal trafodaethau â’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y fath strategaeth yn rhoi ystyriaeth i’r ffaith bod gwasanaethau iechyd wedi’u datganoli yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i’n fframwaith clinigol cenedlaethol a’n datganiadau ansawdd sy’n datblygu.

Y byrddau iechyd a’r ymddiriedolaethau sy’n parhau i fod yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau i’r rheini sydd â chyflyrau niwrolegol, gan gynnwys epilepsi. Mae’r byrddau iechyd a’r ymddiriedolaethau yn cwblhau dadansoddiadau o anghenion y boblogaeth er mwyn penderfynu ar y lefelau staffio angenrheidiol, gan gynnwys Nyrsys Arbenigol Epilepsi. Disgwyliaf iddynt sicrhau bod gwasanaethau sydd wedi’u teilwra i anghenion unigol cleifion ar gael. Mae’r byrddau iechyd a’r ymddiriedolaethau yn cydweithio’n agos â sefydliadau gwirfoddol a phobl sydd â phrofiad bywyd o gyflyrau niwrolegol er mwyn gwella gwasanaethau yn barhaus.

Disgwyliaf weld cynnydd yn y trawsnewidiadau, yn ogystal â mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth o wasanaethau adsefydlu, ail-alluogi ac adferiad, gan gynnwys gwasanaethau niwro-adsefydlu. Mae hyn er mwyn galluogi pobl i sicrhau’r adferiad gorau posibl wedi afiechyd, a hynny mor agos i’w cartrefi ag sy’n bosibl. Mae hyn hefyd er mwyn eu galluogi i fyw bywydau annibynnol, iachach, hapusach a hirach.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o gymorth wrth ichi fynd i’r afael â rhai o’r materion a godwyd yn y Ddeiseb.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services